# Strategaeth Prydain ar Rhywogaethau Estron Goresgynnol

Awst 2015







Department for Environment Food & Rural Affairs

The Scottish Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

© Hawlfraint y Goron 2015

Gellir ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (ar wahân i'r logo) am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3. I weld y drwydded hon ewch i www.nationarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ neu anfonwch e-bost at PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom yn:

The Great Britain Non-native Species Secretariat
Animal and Plant Health Agency
Sand Hutton
Caerefrog
YO41 1LZ
Ffôn: 01904 406615
Ebost: nnss@apha.gsi.gov.uk

Ffotograffau'r clawr: Prif ddarlun – Dail-ceiniog arnofiol (*Hydrocotyle ranunculoides*). Lluniau llai (o'r top i'r gwaelod): Cacynaidd Asiaidd (*Vespa velutina*) [delwedd trwy garedigrwydd Jean Haxaire]; Berdysen reibus (*Dikerogammarus villosus*); Parotan y Mynach (*Myiopsitta monachus*).

PB 14324

## Rhagair

Yn 2008, cafodd Strategaeth gyntaf Prydain ar Rywogaethau Estron ei chyhoeddi. Roedd yn adeiladu ar yr adolygiad polisi cynhwysfawr y cafwyd adroddiad arno yn 2003. Roedd y Strategaeth yn nodi amcanion allweddol a chamau gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r bygythiadau a achosir gan y rhywogaethau hyn mewn ffordd gydgysylltiedig.

Gwnaed cynnydd sylweddol er 2008, wedi'i seilio ar y Strategaeth, yn cynnwys:

- Sefydlu'r Porthol Gwybodaeth am Rywogaethau Estron (NNSIP), gan ddarparu storfa ganolog i wybodaeth am rywogaethau estron a data dosbarthiad;
- Cynnal a chyhoeddi asesiadau risg i 60 o rywogaethau, gyda 71 arall ar waith;
- Ymateb yn effeithiol i fygythiadau, yn cynnwys y rhaglen i gael gwared â'r hwyaden goch, sydd wedi lleihau'r boblogaeth o 6,000 yn y flwyddyn 2000, i ddim ond 30 erbyn 2015;
- Codi ymwybyddiaeth drwy ddwy ymgyrch yn canolbwyntio ar blanhigion dyfrol ('Mynd at Wraidd y Mater') a'r rhai sy'n defnyddio dŵr at ddibenion hamdden ('Edrych Golchi Sychu');
- Cynnal asesiad o effaith economaidd rhywogaethau estron goresgynnol, a hwwnw'n awgrymu bod y gost flynyddol i economi Prydain yn £1.7 biliwn.

Chwaraeodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig (y DU) ran holl bwysig hefyd yn dadlau'n llwyddiannus o blaid gweithredu cyfunol ar draws Ewrop i fynd i'r afael â'r materion hyn. Arweiniodd hynny at Reoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol yr Undeb Ewropeaidd, a ddaeth i rym yn 2015. Bydd y Rheoliad yn sicrhau bod gweithredu ar draws yr UE yn atal y rhywogaethau mwyaf goresgynnol a bygythiol rhag gallu cael mynediad ac ymledu ar draws y Farchnad Sengl.

Mae'r Strategaeth ddiweddaredig hon yn adeiladu ar lwyddiant y chwe blynedd diwethaf, mae'n cydnabod ble mae angen gwaith pellach, ac mae'n gosod cyfres o nodau ac amcanion uchelgeisiol a fydd yn sail i'r gweithredu dros y pum mlynedd nesaf. Er mwyn iddi lwyddo bydd angen nid yn unig i'r Llywodraeth barhau i roi arweiniad a chyfeiriad cryf ond bydd angen partneriaethau effeithiol hefyd gyda Chyrff Anllywodraethol amgylcheddol, cynrychiolwyr masnach a'r sector gwirfoddol. Byddwn yn ceisio adeiladu ar y partneriaethau hyn a'u hehangu ymhellach yn y misoedd a'r blynyddoedd i ddod.



**Yr Arglwydd Gardiner o Kimble**
Llefarydd Defra yn Nhŷ'r Arglwyddi

**Carl Sergeant AC**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Llywodraeth Cymru

**Aileen McLeod ASA**
Gweinidog yr Amgylchedd, y Newid yn yr Hinsawdd a Diwygio Tir
Llywodraeth yr Alban

**Cynnwys**


Pennod 1 – Cyflwyniad a Chwmpas……………………………………………………. 1

Ein gweledigaeth…………………………………………………………….. 1

Yr angen am Strategaeth…………………………………………................. 2

Llwyddiannau Strategaeth 2008 …………………………………………….. 3

Pennod 2 - Amcanion Strategol ……………………………………………………... 6

Pennod 3 - Atal …………………………………………………………….............. 7

Pennod 4 - Canfod yn Gynnar, Cadw Gwyliadwriaeth, Monitro ac Ymateb yn Gyflym…………………………………………………………………………….... 11

Pennod 5 - Rheoli Tymor Hir………………………………………..………… 17

Pennod 6 - Meithrin Ymwybyddiaeth a Dealltwriaeth ………………….............. 21

Pennod 7 - Materion trawsbynciol…………………………………………........... 23

Llywodraethu a chyd-drefnu ………………………………………………... 23

Blaenoriaethu a dadansoddi risg ……………………………………………... 25

Deddfwriaeth ……………………………………………………………… 27

Pennod 8 - Ymchwil ……………………………………………………………… 29

Pennod 9 - Cyfnewid a Chyfuno Gwybodaeth ……………………………........... 31

Pennod 10 - Gweithredu ac Adolygu ……………………………………………... 33

Atodiad 1 - Argymhellion allweddol o’r 'Review of Non-Native Species Policy: Report of the Working Group', Defra, 2003 ……………………….................... 34

Atodiad 2 - Mecanwaith Rhywogaethau Estron Prydain …………..……………… 35

Atodiad 3: Rhestr byrfoddau a thermau …………………………………………… 39

## 1 Cyflwyniad a Chwmpas

Yn 2008 cyhoeddwyd Strategaeth Fframwaith Rhywogaethau Anfrodorol Prydain. Roedd yn cynnwys argymhelliad i'w gwerthuso bob pum mlynedd. Dechreuodd yr adolygiad cyntaf yn 2013, gan gynnwys chwe gweithdy gyda rhanddeiliaid ac ymgynghoriad cyhoeddus ar ganfyddiadau interim yr adolygiad. Comisiynwyd dau arbenigwr rhyngwladol hefyd i adolygu'r strategaeth o safbwynt rhyngwladol. Ffrwyth y broses adolygu honno yw'r Strategaeth ddiweddaredig hon.

Nod y Strategaeth yw ymdrin â materion yn ymwneud â rhywogaethau estron goresgynnol ym Mhrydain, gan weithredu'n gyson â Strategaeth 2008 ac adolygiad polisi 2003. Mae'r Strategaeth yn cwmpasu amgylcheddau daearol, dŵr croyw a morol a hefyd rywogaethau sy'n frodorol yn un rhan o'r wlad ond yn dod yn oresgynnol mewn ardaloedd y tu hwnt i'w dosbarthiad naturiol. Defnyddir y term 'rhywogaethau estron' gydol y ddogfen hon, ac mae'n gyfystyr â'r term '*alien species*' a ddefnyddir gan y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol (CBD). Ystyr rhywogaethau estron goresgynnol (sy'n gyfystyr ag 'IAS' '*invasive alien species*') yn fras yw rhywogaethau sy'n cael eu cyflwyno a/neu sy'n ymledu gan fygwth amrywiaeth fiolegol neu gael rhyw effaith arall na ellir ei rhagweld.

Mae'r Strategaeth yn cwmpasu pob rhywogaeth o blanhigion ac anifeiliaid estron heblaw am organeddau wedi'u haddasu'n enetig (GMO), bacteria a feirysau. Er hynny, mae effaith lawn y Strategaeth wedi'i hanelu at y rhywogaethau estron hynny sy'n hysbys fel rhai goresgynnol neu a allai fod yn oresgynnol. Nid yw'r Strategaeth yn ceisio mynd i'r afael â materion iechyd dynol na rhywogaethau a arferai fod yn frodorol, ac nid yw chwaith yn ymdrin â chlefydau planhigion ac anifeiliaid, er ei bod yn ceisio sicrhau cydweithio agos â'r meysydd hyn lle mae hynny'n briodol.

### Ein Gweledigaeth

O roi'r Strategaeth hon ar waith yn llawn, ein gweledigaeth yw y bydd bioamrywiaeth, safon bywyd a lles economaidd Prydain yn cael eu gwarchod yn well rhag effeithiau andwyol rhywogaethau estron goresgynnol oherwydd:

- bydd mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ehangach o'r peryglon a'r effeithiau andwyol sy'n gysylltiedig â rhywogaethau estron goresgynnol, a byddwn lawer mwy ar ein gwyliadwriaeth rhagddynt;
- caiff rhywogaethau estron goresgynnol eu hintegreiddio i'r agenda bioddiogelwch ehangach;
- bydd ymdeimlad cryf o rannu cyfrifoldebau ar draws y llywodraeth, sefydliadau rhanddeiliaid allweddol, rheolwyr tir a'r cyhoedd yn gyffredinol i ymddwyn a

gweithredu mewn modd sy'n lleihau'r peryglon a achosir gan rywogaethau estron goresgynnol;

- bydd fframwaith ar gyfer cynlluniau i liniaru, rheoli neu waredu rhywogaethau estron goresgynnol – yn genedlaethol, rhanbarthol a lleol – i helpu i leihau eu heffeithiau andwyol; a
- bydd gwell cyd-drefnu a chydweithredu ar faterion yn gysylltiedig â rhywogaethau estron goresgynnol ar lefel Ewropeaidd a rhyngwladol.

**Yr Angen am Strategaeth**

Er nad yw'r mwyafrif o rywogaethau estron yn achosi llawer o risg neu ddim risg o gwbl, cafodd Strategaeth 2008 ei drafftio gan wybod bod rhywogaethau estron goresgynnol yn broblem sylweddol sydd ar gynnydd; fodd bynnag, at ei gilydd nid oedd y bygythiad i Brydain wedi'i fesur. Erbyn hyn, yn 2015, rydym yn gwybod llawer mwy am faint y broblem sy'n ein hwynebu. Mae bron i 2,000 o rywogaethau estron wedi ymsefydlu ym Mhrydain, y rhan fwyaf ohonynt yn ddaearol (c.1,800) gyda niferoedd llai yn yr amgylcheddau morol a dŵr croyw (c.80 yn y naill a'r llall). Mae'r nifer o newydd ddyfodiaid yn cynyddu hefyd gyda 10-12 rhywogaeth estron newydd yn ymsefydlu bob blwyddyn. Caiff y duedd hon ei hadlewyrchu ar draws Ewrop a gweddill y byd. Os nad eir i'r afael â hi, y disgwyl yw y bydd y duedd yn dal i gynyddu hyd y gellir rhagweld i'r dyfodol.

Mae tua 10-15% o'r rhywogaethau estron sydd wedi ymsefydlu ym Mhrydain yn achosi effeithiau andwyol sylweddol. Mae rhywogaethau dyfrol yn tueddu i fod yn fwy goresgynnol na rhai daearol, ac mae anifeiliaid yn fwy goresgynnol na phlanhigion. Mae'r effeithiau'n cynnwys:

- Effeithiau amgylcheddol: Amharu ar gynefinoedd ac ecosystemau, ysglyfaethu ar rywogaethau brodorol neu gystadlu'n gryfach na nhw, lledaenu clefydau, ac ymyrryd â geneteg rhywogaethau brodorol. Mae effaith ecolegol rhai rhywogaethau estron goresgynnol, fel minc America, cimwch afon America a'r wiwer lwyd yn hysbys iawn, ond mae llawer o effeithiau eraill yn llai gweladwy.
- Effeithiau Economaidd: Mae cost flynyddol rhywogaethau estron goresgynnol yn £1.7 biliwn y flwyddyn o leiaf ym Mhrydain. Ysgwyddir llawer o'r gost hon gan y sector amaethyddiaeth a garddwriaeth, ond effeithir ar lawer o sectorau eraill hefyd, yn cynnwys trafnidiaeth, adeiladu, dyframaethu, hamdden a chyfleustodau. Amcangyfrifir bod clymog Japan yn unig yn costio tua £166 miliwn y flwyddyn i economi Prydain.
- Effeithiau Cymdeithasol: Mae rhai rhywogaethau yn achosi problemau o ran iechyd pobl neu maent yn niwsans i berchenogion tir. Mae planhigion goresgynnol yn tagu

dyfroedd gan atal mynediad ar gyfer mordwyo a physgota. Achosir rhai bygythiadau sylweddol i iechyd pobl gan rywogaethau nad ydynt ym Mhrydain eto ond a allai ymsefydlu yn y dyfodol. Er enghraifft, picwnen Asia sydd wedi lladd o leiaf saith person yn Ffrainc ers cyrraedd y wlad, a bratlys sydd wedi gwneud clefyd y gwair lawer yn waeth ar draws nifer o wledydd Ewrop.

Gan gydnabod y bygythiad cynyddol yn deillio o rywogaethau estron, mae'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol yn bwysig iawn i sbarduno gweithredu ar lefel ryngwladol. Mae un o'i egwyddorion arweiniol yn galw am strategaethau cenedlaethol ar rywogaethau estron goresgynnol. Ar lefel yr UE, mae'r Rheoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol (EC 1143/2014) a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2015, ac y cyfrannodd y Deyrnas Unedig yn helaeth iddo, yn cynrychioli newid sylweddol yn y ffordd o weithredu ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Aelod Wladwriaethau roi nifer o fesurau ar waith i atal a rheoli rhywogaethau estron goresgynnol.

Mae'r Strategaeth hon yn angenrheidiol gan ei bod yn darparu'r fframwaith i helpu i gyd-drefnu polisi a gweithredu ar draws Prydain. Mae'n ystyried llwyddiannau strategaeth wreiddiol 2008 yn ogystal â chanlyniadau adolygiad 2013-14.

**Llwyddiannau Strategaeth 2008**

Un amcan polisi allweddol ym Mhrydain fu datblygu trefn gref i weithio drwy bartneriaeth, gyda'r Strategaeth yn darparu fframwaith i gefnogi a chyd-drefnu'r gweithredu. Mae llwyddiannau'r saith mlynedd diwethaf yn adlewyrchu'r cydweithio eang hwn rhwng llywodraeth, diwydiant, Cyrff Anllywodraethol a rhanddeiliaid eraill. Yn wir, un llwyddiant allweddol fu tynnu ynghyd nifer fawr o sefydliadau sydd wedi helpu i roi camau gweithredu'r Strategaeth ar waith.

Rydym wedi datblygu mecanwaith unigryw i ddadansoddi risg, wedi ariannu ymchwil strategol ac wedi sefydlu porthol gwybodaeth a system rybuddio. Ar lawr gwlad, mae tair rhywogaeth wedi cael eu dileu'n llwyr o Brydain ac mae pum arall yn y broses o gael eu dileu; mae'r gweithredu cynnar hwn wedi arbed miliynau i economi Prydain, gan atal rhagor o ddifrod amgylcheddol ac osgoi costau oedi cyn gweithredu. Noder yn arbennig yr hwyaden goch sydd bron â chael ei dileu'n llwyr (gweler yr astudiaeth achos, isod) - esiampl ryngwladol sydd hefyd yn dangos ymrwymiad Prydain i ddiogelu bioamrywiaeth ar lefel Ewropeaidd a rhyngwladol.

Y Deyrnas Unedig yw Aelod Wladwriaeth gyntaf yr UE i ddatblygu a rhyddhau cyfryngau bioreoli ar gyfer rhywogaethau planhigion goresgynnol – clymog Japan a jac y neidiwr – ac mae'n ariannu ymdrechion tebyg mewn perthynas â phlanhigion estron goresgynnol eraill. Rydym hefyd wedi cefnogi sefydlu rhwydwaith o grwpiau gweithredu lleol i hwyluso gweithredu strategol ar raddfa leol. Gan gydnabod pwysigrwydd codi ymwybyddiaeth,

rydym wedi lansio a chynnal dwy ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus: ‘Mynd at Wraidd y Mater' ac 'Edrych, Golchi, Sychu'.

Hefyd, rydym wedi dechrau gwella’r integreiddio ag elfennau eraill o fioddiogelwch. Seilir ein proses dadansoddi risg ar y broses a ddefnyddir i fynd i’r afael â bygythiadau i iechyd planhigion, ac rydym yn parhau i gydweithio’n agosach â’r cyfundrefnau sy’n rheoli iechyd planhigion ac anifeiliaid wrth asesu risg. Ynghyd â’n cydweithwyr ym maes iechyd gwenyn, dyfeisiwyd cynllun wrth gefn gennym ar gyfer picwnen Asia, sef yr unig gynllun wrth gefn ar raddfa genedlaethol yn yr UE i rywogaeth oresgynnol y tu hwnt i iechyd planhigion ac anifeiliaid. Rydym yn cydweithio’n gynyddol ar gyfathrebu ynglŷn â bioddiogelwch (er enghraifft, darparwyd gardd bioddiogelwch ‘Atal Lledaenu’ ar y cyd gennym ni a chydweithwyr ym maes iechyd planhigion yn Sioe Flodau Chelsea yn 2013).

**Arbed costau drwy ymateb yn gyflym i fygythiadau – briallu'r dŵr**

Planhigyn addurniadol yw briallen y dŵr (*Ludwigia grandiflora*) a gysylltir â gwlyptiroedd ac ymylon cyrsiau dŵr. Mae'n broblem ddifrifol yn Ffrainc a daeth yr asesiad risg i Brydain i'r casgliad ei bod yn achosi risg fawr yma hefyd. Mae'n lledaenu'n gyflym drwy dameidiau bach o lystyfiant ac mae'n ffurfio carpedi trwchus sy'n atal bioamrywiaeth frodorol, yn cynyddu'r perygl llifogydd a siltio ac yn diraddio werth amwynder.

Dechreuodd ymgyrch ddileu, yn cael ei chyd-drefnu gan Asiantaeth yr Amgylchedd, yn 2009 a hyd yma mae'r planhigyn wedi cael ei ddileu'n llwyr o dri o'r 23 safle lle'r oedd wedi cael ei ganfod. Mae gwaith rheoli'n parhau ar y safleoedd eraill.

Hyd yma, bu'r gost o'i glirio yn llai na £50,000, a chadwyd y costau'n isel drwy ddefnyddio gwirfoddolwyr a pherchenogion tir. Byddai briallu'r dŵr yn lledaenu'n eang pe na bai'r poblogaethau presennol yn cael eu dileu, felly byddai'r costau rheoli yn cynyddu. Pe bai briallu'r dŵr yn lledaenu'n eang, amcangyfrifir y byddai'r gost lawn i'w dileu oddeutu £250 miliwn. Mae gweithredu'n awr yn arbed miliynau lawer o bunnoedd mewn costau cyfyngu a rheoli yn ddiweddarach.



*Briallu dŵr yn mygu dyfrffordd yn Ffrainc*

## 2 Amcanion Strategol

Nod cyffredinol y Strategaeth hon yw lleihau'r peryglon a achosir gan rywogaethau estron goresgynnol ym Mhrydain a'u heffeithiau negyddol. Mae'n dilyn trefn hierarchaidd y CBD sy'n pwysleisio atal, yna canfod yn gynnar ac ymateb yn gyflym ac, yn olaf, rheoli tymor hir.

Amcanion penodol y Strategaeth yw:

- egluro a chydgysylltu cyfrifoldebau a swyddogaethau'r llywodraeth a'i chyrff cysylltiedig yn well;
- cydgysylltu'r camau i fynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol yn well, ar y cyd â grwpiau buddiant allweddol y tu allan i'r llywodraeth;
- sicrhau lefel briodol o ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â rhywogaethau estron a hyrwyddo newidiadau priodol mewn ymddygiad neu agweddau ledled y sectorau perthnasol;
- lleihau a, lle bo'n bosibl, atal rhywogaethau estron goresgynnol rhag cael eu cyflwyno'n fwriadol ac anfwriadol;
- sicrhau bod trefniadau ymateb wrth gefn effeithiol wedi'u sefydlu i atal rhywogaethau newydd sy'n dod i Brydain rhag ymsefydlu, lle bo'n bosibl;
- helpu i sicrhau bod yna ddigon o adnoddau i allu cymryd camau strategol i reoli rhywogaethau estron goresgynnol a bod y gwaith yn cael ei wneud;
- gwneud y defnydd gorau posibl o'r capasiti a'r adnoddau sydd ar gael i wella'r gwaith o ganfod a monitro, a
- nodi'r bylchau a'r meysydd blaenoriaeth i'w datblygu ymhellach.

## 3 Atal

Mae Egwyddorion Arweiniol y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol yn rhoi pwyslais cryf ar atal fel y dull ymyrryd sy'n lleiaf niweidiol yn amgylcheddol. Mae'n golygu bod yr effeithiau andwyol a'r costau sydd ynghlwm wrth fynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol yn cael eu lleihau i'r eithaf. Mae atal yn neilltuol o bwysig yn yr amgylchedd morol lle mae rheoli a dileu yn dechnegol anodd. Mae mynd i'r afael â'r llwybrau cyflwyno (bwriadol ac anfwriadol) a gwylio'r gorwel yn elfennau atal allweddol yr ymdrinnir â nhw yn y bennod hon. Caiff elfennau eraill sy'n cyfrannu at atal, yn cynnwys deddfwriaeth, dadansoddi risg ac ymwybyddiaeth gyhoeddus, eu hystyried mewn mannau eraill yn y Strategaeth hon.

Ceir yn Strategaeth 2008 sawl cam gweithredu yn ymwneud â llwybrau cyflwyno, ond bu diffyg cynnydd yn y maes hwn, yn bennaf oherwydd diffyg tystiolaeth i helpu i flaenoriaethu a rheoli llwybrau. Fodd bynnag, mae sylw'n cael ei roi i'r bwlch tystiolaeth hwn drwy'r Porthol Gwybodaeth am Rywogaethau Estron (NNSIP) a phrosiectau eraill, yn cynnwys dosbarthu 37 o lwybrau cyflwyno eang a channoedd o is-lwybrau. Hefyd, ceir yn Rheoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol yr Undeb Ewropeaidd ddarpariaeth sylweddol i reoleiddio cyflwyno rhywogaethau estron yn fwriadol a rheoli llwybrau anfwriadol, a bydd hyn yn dylanwadu ar sut y byddwn yn symud ymlaen yn y maes pwysig hwn. Er bod adnabod bygythiadau o du rhywogaethau newydd a allai gael eu cyflwyno i Brydain a'u hatal wedi cael ei nodi fel blaenoriaeth, mae adnoddau'n dal i gael eu targedu'n fwy at ddelio â rhywogaethau sydd eisoes wedi ymsefydlu.

Bydd atal rhywogaethau estron goresgynnol newydd rhag cael eu cyflwyno a rhag ymsefydlu yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel ym Mhrydain. Byddwn yn ceisio adnabod a rhoi blaenoriaeth i'r llwybrau hynny sy'n cynrychioli'r risg fwyaf, a datblygu Cynlluniau Gweithredu Llwybrau (PAPs) i lwybrau â blaenoriaeth. Cryfheir yr integreiddio â threfniadau bioddiogelwch sy'n bodoli'n barod (Planhigion, Anifeiliaid, Iechyd gwenyn etc.), er enghraifft, ar Ffiniau'r Deyrnas Unedig, a byddwn yn parhau i weithio gydag Aelod Wladwriaethau eraill i roi'r gofynion ynglŷn â llwybrau yn Rheoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol yr UE ar waith. Byddwn hefyd yn ceisio asesu ac, os yw'n briodol, aildrefnu'n blaenoriaethau gwario gan ystyried rheolaeth tymor hir.

Gyda 10-12 o rywogaethau estron newydd yn ymsefydlu bob blwyddyn, mae'n hanfodol gallu rhagweld ymlaen llaw pa rywogaethau sy'n debygol o ddod yma, ymsefydlu a chael effaith andwyol. Mae gwylio'r gorwel yn elfen allweddol o'r gwaith atal felly ac yn hynod bwysig i arwain ein hymdrechion o ran dadansoddi risg, rheoli llwybrau a darparu cynlluniau wrth gefn. Yn 2013 cynhaliwyd ymarferiad gwylio'r gorwel gan brosiect y Porthol Gwybodaeth am Rywogaethau Estron, gan weithio gydag amryw o arbenigwyr i nodi rhywogaethau estron a oedd yn debygol o gyrraedd, ymsefydlu ac achosi effeithiau negyddol ym Mhrydain yn y dyfodol agos. Erbyn gwanwyn 2015, roedd tair o'r 10 rhywogaeth ar frig rhestr gwylio'r gorwel eisoes wedi cyrraedd. Byddwn yn parhau i

weithredu fel hyn, gan ystyried datblygiadau ar draws Ewrop, yn ogystal â ffyrdd eraill o ymdrin â bioddiogelwch, yn arbennig y Gofrestr Perygl i Iechyd Planhigion.

**Picwnen Asia: cynllun wrth gefn cyntaf Ewrop**

Mae picwnen Asia (*Vespa velutina)* yn ysglyfaethu'n ymosodol ar wenyn mêl a phryfed eraill. Fe'i cyflwynwyd yn ddamweiniol i Ffrainc 10 mlynedd yn ôl a buan yr oedd wedi ymledu'n eang yno. Erbyn hyn mae wedi cyrraedd Sbaen, Gwlad Belg, Portiwgal, yr Eidal a'r Almaen hefyd.

Mae pryder mawr y gwnaiff y rhywogaeth hon gyrraedd Prydain drwy nwyddau sy'n cael eu mewnforio neu drwy hedfan ar draws y Sianel. Pe bai'n ymsefydlu câi effaith niweidiol ar y sector cadw gwenyn ac ar yr amgylchedd, a byddai'n berygl i iechyd y cyhoedd hefyd.

Ar ôl cwblhau'r asesiad risg yn 2011 ac asesiad o'r opsiynau rheoli, penderfynodd y Llywodraeth ar bolisi cyffredinol o atal y rhywogaeth rhag ymsefydlu. Ym mis Ebrill 2012, cwblhawyd y Cynllun Ymateb i bicwnen Asia ar ei wedd derfynol. Mae hyn yn unigryw yn Ewrop gan ei fod yn ymdrin â rhywogaeth nad yw'n bla statudol ac nad yw eto'n bresennol yn y wlad. Prif amcan y Cynllun yw dal y rhywogaeth hon yn gyflym a'i hatal rhag ymsefydlu ym Mhrydain.

Mae canfod cynnar yn hanfodol bwysig i lwyddiant y cynllun. Rydym wedi sefydlu system rybuddio sy'n galluogi'r cyhoedd i roi gwybod os ydynt yn gweld y rhywogaeth, a chaiff yr Uned Gwenyn Genedlaethol (NBU) ei hysbysu wedyn. Hyd yma mae pob un o'r 1,000+ o achosion a amheuwyd wedi profi'n negyddol. Mae rhwydwaith hefyd o wenynfeydd sentinel sydd ar eu gwyliadwriaeth am y rhywogaeth.

Os caiff picwnen Asia ei chanfod ym Mhrydain, bydd yr NBU a staff yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yn gweithio gyda'i gilydd i leoli a difa nythod. Mae'r Cynllun wedi cael ei brofi mewn un ymarferiad bwrdd gwaith a dau ymarferiad maes wrth gefn ac mae'r tîm ymateb hefyd wedi cael hyfforddiant yn Ffrainc.



*Picwnen Asia.*



*Nyth picwnen Asia mewn coeden.*

***Amcan***

Lleihau'r perygl y gallai rhywogaethau estron goresgynnol gyrraedd Prydain ac ymsefydlu yma, drwy roi cymaint â phosibl o bwyslais ar atal.

***Camau allweddol*:**

Byddwn yn:

**Cam Allweddol 3.1**
datblygu ffordd gadarn o osod llwybrau yn nhrefn blaenoriaeth ar sail effaith bosibl y rhywogaeth a gyflwynir a pha mor effeithiol yw'r gwaith i reoli'r llwybr;

**Cam Allweddol 3.2**
dadansoddi llwybrau â blaenoriaeth i ganfod sut maen nhw'n gweithredu (e.e. tarddiad, hynt, cyfaint, amseryddol, tueddiadau gofodol) a sut y gellir lleihau'r risg yn fwyaf effeithiol;

**Cam Allweddol 3.3**
datblygu Cynlluniau Gweithredu Llwybrau i lwybrau â blaenoriaeth mewn partneriaeth â rhanddeiliaid perthnasol;

**Cam Allweddol 3.4**
ceisio mwy o ymwneud ag Aelod Wladwriaethau eraill yr UE a gwledydd eraill er mwyn gwella'r atal cyn cyrraedd ffiniau;

**Cam Allweddol 3.5**
cynnal archwiliadau ar y ffiniau am y rhywogaethau sy'n peri'r pryder mwyaf, a cheisio integreiddio pellach â'r trefniadau Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion;

**Cam Allweddol 3.6**
mabwysiadu a gweithredu proses glir i gwylio'r gorwel yn rheolaidd am fygythiadau sy'n datblygu, a chynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid;

**Cam Allweddol 3.7**
cynhyrchu cynlluniau wrth gefn ar gyfer rhywogaethau â blaenoriaeth, cyn iddyn nhw gyrraedd Prydain. Caiff y rhain eu datblygu mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid a byddant yn nodi rolau a chyfrifoldebau clir;

**Cam Allweddol 3.8**
meithrin a datblygu arbenigedd a chapasiti i roi ymatebion wrth gefn ar waith ar draws y llywodraeth a rhanddeiliaid perthnasol, er enghraifft drwy ddatblygu canolfannau rhagoriaeth a rhannu capasiti gyda'r trefniadau iechyd anifeiliaid a phlanhigion.

## 4 Canfod yn Gynnar, Cadw Gwyliadwriaeth, Monitro ac Ymateb yn Gyflym

4.1 Canfod yn Gynnar, Cadw Gwyliadwriaeth, Monitro

Mae angen clir am wybodaeth gyfredol, gywir am ddosbarthiad rhywogaethau estron fel sail i lawr o'r penderfyniadau a wnawn, megis pa bryd mae hi'n briodol ceisio dileu rhywogaeth yn llwyr. I'r perwyl hwn, sefydlwyd y Porthol Gwybodaeth am Rywogaethau Estron yn 2008 i ddarparu man canolog, ynghyd â phorth y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol, i gofnodion am rywogaethau estron ym Mhrydain. Mae wedi cymryd camau sylweddol ymlaen o ran cynnwys amrywiaeth eang o sefydliadau, cynyddu ymwybyddiaeth o'r angen i gyflwyno data, datblygu dulliau a chynyddu nifer a chyflymdra'r llif cofnodion, yn cynnwys cofnodion a geir drwy wyddor y bobl. Mae datblygu cronfa ddata gynhwysfawr i gasglu gwybodaeth am rywogaethau estron sydd wedi dod yma yn y gorffennol wedi bod yn holl bwysig er darparu'r wybodaeth i seilio penderfyniadau polisi arni. I helpu i ganfod rhywogaethau estron yn gynnar ym Mhrydain, rydym hefyd wedi datblygu mecanwaith rhybuddio sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn ac wedi cyflenwi nifer fawr o gofnodion am rywogaethau â blaenoriaeth.


Mae angen cryn lawer o waith eto i gynnal a datblygu'r Porthol, yn cynnwys denu rhagor o gyrff i gymryd rhan ac, yn arbennig, cynyddu'r llif data. Mae Rheoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol yr UE a Chyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol (MSFD) hefyd yn rhoi gofynion cadw gwyliadwriaeth ychwanegol ar y Deyrnas Unedig, yn cynnwys gwaith i gadw gwyliadwriaeth am rywogaethau penodol a monitro llwybrau risg uchel a mannau mynediad tebygol.

Byddwn yn parhau i gefnogi'r Porthol Gwybodaeth a thwf y mecanwaith rhybuddio fel ei fod yn gweddu i anghenion Prydain ac, ymysg pethau eraill, yn cyflawni'r gofyniad yn Rheoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol yr UE am rybuddio cynnar. Byddwn yn ceisio datblygu trefn cadw gwyliadwriaeth bwrpasol ar gyfer rhywogaethau a llwybrau uchel eu proffil.

**Cadw Gwyliadwriaeth Forol: Prosiect Llwybrau Morol.**

Mae monitro a chadw gwyliadwriaeth am rywogaethau estron yn yr amgylchedd morol yn aml yn anodd ond mae'n dyngedfennol fel sail i weithredu yn ymwneud â llwybrau cyflwyno a lledaenu. Mae'r llwybrau morol allweddol yn cynnwys llongau masnachol, cychod hamdden a dyframaethu. I helpu i ddylanwadu ar fonitro yn y dyfodol (yn cynnwys Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol), sefydlwyd y prosiect llwybrau morol yn 2013. Ei brif nod oedd datblygu protocolau a methodolegau ar gyfer canfod rhywogaethau estron ar hyd y glannau ac ar y môr. Cafodd pedwar is-brosiect eu cynnwys ac ymgymerwyd hefyd ag astudiaeth o'r dwysfannau cyflwyno yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon.

Defnyddiwyd nifer o fethodolegau gwahanol yn cynnwys paneli gwaddodi mewn marinas ac ar safleoedd dyframaethu ynghyd â phaneli ar fwiau ar y môr a chrafiadau oddi arnynt. Drwyddi draw, bydd canlyniadau'r prosiect yn golygu bod modd targedu monitro a chadw gwyliadwriaeth ar rywogaethau estron morol yn well ac yn fwy effeithiol yn y dyfodol.




*Map gwres o weithgarwch llwybrau cyflwyno rhywogaethau estron morol.*




*Bwi monitro ar y môr.*

***Amcan***

Datblygu a chynnal mecanwaith canfod yn gynnar, cadw gwyliadwriaeth a monitro sy'n hwyluso ymatebion rheoli, yn cynnwys ymateb cyflym, ac yn cyflawni gofynion Rheoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol yr UE.

***Camau allweddol:***

Byddwn yn:

**Cam Allweddol 4.1**
parhau i gynnal a datblygu'r Porthol Gwybodaeth am Rywogaethau Estron;

**Cam Allweddol 4.2**
cynyddu'r llif data am rywogaethau allweddol;

**Cam Allweddol 4.3**
parhau i weithio gyda rhwydweithiau cofnodi sy'n bodoli eisoes a chynlluniau gwyddor y bobl i wella'r gwaith cadw gwyliadwriaeth am rywogaethau estron;

**Cam Allweddol 4.4**
sicrhau bod system rybuddio Prydain yn fwy cadarn, gyda phrotocolau clir, adnoddau gwirio a llinellau adrodd, a'i hintegreiddio â chynlluniau perthnasol eraill (e.e. Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, Rheoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol yr UE, etc.);

**Cam Allweddol 4.5**
adolygu'r gallu i ganfod a chadw gwyliadwriaeth yng ngoleuni'r gofynion polisi (yn cynnwys y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD), Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol (MSFD) a Rheoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol yr UE), gwylio'r gorwel a dadansoddi llwybrau;

**Cam Allweddol 4.6**
datblygu trefn cadw gwyliadwriaeth bwrpasol i rywogaethau a/neu lwybrau y rhoddir blaenoriaeth uchel iddynt (e.e. defnyddio'r drefn dadansoddi dwysfannau).

4.2 Ymateb Cyflym

Ni fydd mesurau i atal cyflwyno rhywogaethau estron i Brydain yn llwyddiannus bob amser, hyd yn oed pe bai adnoddau diddiwedd ar gael. Po gyntaf y gweithredir i fynd i'r afael ag unrhyw fygythiad, y mwyaf y gobaith o lwyddo a'r llai costus fydd hi. Mae'r drefn ragofalus yn y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol (CBD) yn awgrymu y dylid gweithredu i ddileu rhywogaeth estron yn llwyr neu ei hatal rhag ymsefydlu neu ledaenu ymhellach lle daw'r broses asesu risg i'r casgliad ei bod yn fygythiad neu ei bod yn debygol o fod yn fygythiad. Mae angen digon o gapasiti gweithredol ac adnoddau i wneud hyn.

Ers lansio'r Strategaeth yn 2008, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran ymateb yn gyflym i rywogaethau sydd newydd gyrraedd a'r rhai y mae eu dosbarthiad yn dal yn gyfyngedig. Mae gweithgor, a sefydlwyd yn 2008, wedi datblygu protocol i hwyluso ymatebion cyflym ac mae'r Bwrdd Rhaglen wedi cytuno ar flaenoriaethau dileu cyflym Prydain. Rydym yn arwain y ffordd yn hyn o beth yn Ewrop ac wedi llwyr ddileu llyffant crafangog Affrica, y pilcodyn pendew a'r penlletwad du. Mae'r gwaith o ddileu briallu'r dŵr, y marchlyffant Americanaidd, y llyfrothen uwchsafn a'r parotan mynach yn parhau. Wrth roi'r ymatebion hyn ar waith rydym wedi datblygu capasiti gweithredol arbenigol, yn arbennig mewn perthynas â physgod ac adar.

Fodd bynnag, canfu'r adolygiad hefyd fod diffygion o hyd yn y ffordd rydyn ni'n gweithredu – yn arbennig, diffyg arian ar gyfer ymatebion cyflym o'u cymharu â rheolaeth tymor hir a'r angen i dargedu rhagor o adnoddau tuag at ddileu rhywogaethau lle'r ystyrir bod dichon gwneud hynny. Ymysg y rhwystrau eraill rhag ymateb yn gyflym mae problemau cael mynediad i dir, diffyg capasiti ac arbenigedd, a llinellau cyfrifoldeb clir, yn ogystal â phroblem o ran cyfathrebu a chyfyngiadau ar ddefnyddio technegau dileu.


Byddwn yn ailgynnull y Gweithgor Ymateb Cyflym, yn adolygu ymatebion cyflym y gorffennol a'r presennol ac yn ceisio hyrwyddo datblygu mwy o gapasiti. Bydd ymateb yn gyflym i rywogaethau â blaenoriaeth yn parhau'n flaenoriaeth glir i'r Bwrdd Rhaglen. Byddwn hefyd yn ystyried y darpariaethau sylweddol yn ymwneud â dileu cyflym yn Rheoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol yr UE.

**Dileu pysgod**

Pysgodyn bras bach o Asia yw'r llyfrothen uwchsafn (*Pseudorasbora parva)* a gyflwynwyd i'r Deyrnas Unedig yn 1984. Gallai fod yn un o'r pysgod estron mwyaf niweidiol i oresgyn Ewrop gan ei fod yn gwasgaru'n hawdd, yn aeddfedu'n rhywiol yn gyflym ac yn hynod o ffrwythlon. Pe bai'r llyfrothen uwchsafn yn ennill ei phlwyf yn nyfroedd y Deyrnas Unedig, gallai'r effaith ar rywogaethau brodorol a'r pysgodfeydd maen nhw'n eu cynnal fod yn ddifrifol.

Ers ei chyflwyno, mae'r llyfrothen uwchsafn wedi lledaenu ar draws Prydain drwy symudiadau pysgod a'r fasnach addurnol, ac mae 23 o boblogaethau wedi'u canfod ledled Lloegr ac yn ne Cymru. Dechreuodd Asiantaeth yr Amgylchedd ar dreialon dileu gan ddefnyddio pysgodladdwr yn 2004. Ar sail ei lwyddiant, cychwynnwyd rhaglen ddileu bum mlynedd yn 2011, gyda'r amcan o gael gwared â'r rhywogaeth yn llwyr o Brydain erbyn 2017. Ar hyn o bryd dim ond pum safle llyfrothod uwchsafn wedi'u cadarnhau sy'n dal i fodoli yng Nghymru a Lloegr. Mae'r rhaglen ddileu yn mynd rhagddi'n unol â'r bwriad o gael gwared â'r rhywogaeth oresgynnol hon o Loegr erbyn 2017.

Dylai datblygu arbenigedd, arfau a thechnegau o'r fath olygu bod modd ymateb yn gyflym i ddileu pysgod goresgynnol newydd ac o bosibl rywogaethau dyfrol fel amffibiaid, cramenogion ac infertebratau eraill. Hyd yma, mae dau bysgodyn goresgynnol arall wedi cael eu dileu'n llwyddiannus o Brydain: y pilcodyn pendew yn 2008 a'r penlletwad du yn 2014.




Map o safleoedd llyfrothod uwchsafn yng Nghymru a Lloegr.




Dileu'r penlletwad du ym Mhrydain.

***Amcan***

Rhoi blaenoriaeth i ymateb yn gyflym a chynnal a datblygu capasiti i wneud hynny.

***Camau allweddol:***

Byddwn yn:

**Cam Allweddol 4.7**
defnyddio dulliau rheoli risg i helpu i nodi a blaenoriaethu rhagor o rywogaethau i'w dileu'n gyflym ym Mhrydain;

**Cam Allweddol 4.8**
gwneud dileu cyflym ar rywogaethau estron goresgynnol allweddol gan y cyrff priodol yn flaenoriaeth glir i'r Bwrdd Rhaglen. Wrth wneud hynny, bydd y Bwrdd Rhaglen yn gofyn am adroddiadau cynnydd rheolaidd;

**Cam Allweddol 4.9**
rhoi i'r Gweithgor Ymateb Cyflym gyfrifoldeb i:

- adolygu'r gwersi a ddysgwyd o gynlluniau ymateb cyflym yn y gorffennol a'r presennol;
- adolygu ac atgyfnerthu protocolau i ymgymryd â gwaith dileu cyflym;
- gweithio gyda diwydiant a Chyrff Anllywodraethol i ddiffinio'u rôl yn cefnogi cynlluniau dileu cyflym;
- adolygu'r gwersi a ddysgwyd o ran y cyfryngau a chyfathrebu yn ymwneud â chynigion dileu sensitif, a darparu canllawiau gwella;

**Cam Allweddol 4.10**
nodi a meithrin capasiti ac arbenigedd i roi ymateb cyflym ar waith, yn cynnwys gwneud hynny drwy rannu arferion da o fewn Prydain, ar draws yr UE ac yn rhyngwladol.

## 5 Rheoli Tymor Hir

Er mai atal ac ymateb yn gyflym yw prif bwyslais y Strategaeth, mae angen rheoli effeithiau'r nifer fawr o rywogaethau estron goresgynnol sydd eisoes wedi ymsefydlu ym Mhrydain. Mae pedwar prif fath o reoli tymor hir: dileu ar raddfa fawr, cyfyngu, rheoli, a lliniaru, ond mae adegau lawer pan nad yw'n briodol gweithredu o gwbl neu nid oes dichon gwneud hynny.

Ar hyn o bryd, mae'r Llywodraeth yn rhoi cymorth uniongyrchol i reoli tua 20 rhywogaeth ar draws Prydain (mewn pedwar achos mae ymateb cyflym ar waith ar draws Prydain gyfan). Mae hyn yn cynrychioli rhyw 10% o'r rhywogaethau mwyaf goresgynnol. Ni yw'r wlad Ewropeaidd gyntaf i ddatblygu cyfryngau bioreoli i reoli planhigion estron goresgynnol yn y tymor hir, yn cynnwys llysleuen clymog Japan, a ryddhawyd yn 2010, a rhwd jac y neidiwr, a ryddhawyd yn 2014. Rydym wedi gweithio ar raddfa eang i ddileu'r hwyaden goch (y disgwyl yw y caiff hyn ei gwblhau erbyn diwedd 2015), un o'r ymdrechion mwyaf i ddileu anifail ag asgwrn cefn yn unrhyw le yn y byd, ac mae'r gwaith o ddileu mincod ar Ynysoedd y Gorllewin yn tynnu tua'i derfyn. Mewn rhai achosion, nid oes modd mynd ati i reoli rywogaethau felly mae bioddiogelwch i arafu'u lledaeniad yn flaenoriaeth – ar gyfer rhywogaethau fel y ferdysen reibus, y gragen las cwaga a'r chwistrell fôr garped. Yn yr achosion hyn rydym wedi helpu i roi mesurau bioddiogelwch ar waith ac wedi dechrau codi ymwybyddiaeth, yn enwedig drwy ymgyrch 'Edrych, Golchi, Sychu' (gweler Pennod 6). Rydym wedi datblygu Cynlluniau Gweithredu Rhywogaethau Goresgynnol (ISAPs) sy'n nodi nodau allweddol, amcanion a chamau gweithredu i reoli sawl rhywogaeth yn y tymor hir, er mwyn helpu i sicrhau bod y gweithredu'n strategol, ac mae rhagor o gynlluniau'n cael eu datblygu. Rydym hefyd wedi cefnogi Grwpiau Gweithredu Lleol sy'n gweithio i reoli nifer fawr o rywogaethau.

Fodd bynnag, bu diffyg cyd-drefnu ar beth o'r gwaith rheoli, ac mae'r blaenoriaethau gweithredu strategol ar lefel Prydain a'r lefel genedlaethol yn dal i gael eu datblygu. Bu arafwch hefyd o ran cwblhau'r ISAPs, yn gyffredinol am fod yr ymateb i lawer o'r rhywogaethau yn gymhleth ac yn cynnwys llawer o randdeiliaid. Mae'r cydymffurfio ag arferion bioddiogelwch da yn wael yn gyffredinol ac mewn rhai achosion ni wyddom am ddull bioddiogelwch effeithiol. I ddelio â'r materion hyn, byddwn yn datblygu a defnyddio dulliau i helpu i osod blaenoriaethau ar gyfer rheoli strategol tymor hir, yn cynnwys dadansoddi cost a budd. Bydd cynhyrchu ISAPs i'r holl rywogaethau sy'n flaenoriaethau strategol yn golygu bod modd cyd-drefnu'r gwaith rheoli tymor hir yn well. Lle nad oes dichon rheoli rhywogaeth yn uniongyrchol, fel sy'n wir yn aml yn yr amgylchedd morol, byddwn yn ceisio lleihau lledaeniad y rhywogaeth drwy well bioddiogelwch, wedi'i dargedu.


**Hwyaden goch**



Brodor o Ogledd America, cafodd yr hwyaden goch (*Oxyura jamaicensis*) ei chyflwyno i'r Deyrnas Unedig yn y 1950au ar gyfer casgliadau adar dŵr. Dihangodd sawl aderyn a chreu poblogaeth a oedd yn hedfan yn rhydd. Wrth i niferoedd yr hwyaden goch gynyddu yn y Deyrnas Unedig, bu mwy a mwy ohonynt yn mudo i'r cyfandir gan ffurfio poblogaethau yn Ffrainc, Gwlad Belg a'r Iseldiroedd. Erbyn y 1990au cynnar, roedd yr hwyaden goch wedi cyrraedd ardaloedd o Sbaen lle mae'r hwyaden benwen, sydd dan fygythiad ar draws y byd, i'w chael. Daeth achosion o groesi â'r hwyaden benwen yn Sbaen yn ddigwyddiad blynyddol, ac erbyn hyn croesi sy'n cael ei weld fel y bygythiad mwyaf i oroesiad yr hwyaden benwen.

Ar ôl sawl blwyddyn o ymchwil, dechreuodd rhaglen yn 2005 i ddileu'r hwyaden goch. Cafodd ei ariannu ar y cyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a rhaglen LIFE-Nature yr UE. Ers hynny mae gwaith wedi cael ei wneud ar draws mwy na 140 o safleoedd ar hyd a lled y Deyrnas Unedig i reoli'r rhywogaeth ac mae'r niferoedd wedi disgyn o bron i 6,000 i 30 o unigolion (amcangyfrif) yn 2015. Mae'r gwaith wedi gweld gostyngiad sylweddol yn nifer yr hwyaid coch sy'n ymddangos yn Sbaen, ac nid oes unrhyw achosion o groesi wedi'u canfod yno er 2007.

Cefnogir y gwaith gan gyrff cadwraeth fel Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir (WWT) a'r Gymdeithas Frenhinol Gwarchod Adar (RSPB). Mae'r hwyaden goch yn cael ei rheoli hefyd yng Ngwlad Belg, yr Iseldiroedd, Ffrainc a Sbaen, ac mae'r rhain i gyd wedi cytuno i ymuno â'r Deyrnas Unedig i geisio dileu'r rhywogaeth hon yn llwyr yn y gwyllt yn Ewrop erbyn diwedd 2015.




*Nifer yr hwyaid coch yn y Deyrnas Unedig, 1966 – 2014.*

***Amcan***

Lleihau a rheoli effaith rhywogaethau estron goresgynnol sydd wedi ymsefydlu mewn modd effeithiol a strategol.

***Camau allweddol***:

Byddwn yn:

**Cam Allweddol 5.1**
datblygu system cefnogi penderfyniadau i helpu i flaenoriaethu ymatebion strategol i rywogaethau sydd wedi ennill eu plwyf ar lefel Prydain, lefel genedlaethol a/neu lefel ranbarthol;

**Cam Allweddol 5.2**
datblygu a hwyluso rhaglenni rheoli tymor hir allweddol ar lefel Prydain sy'n gost effeithiol, wedi'u seilio ar dystiolaeth ac yn gymesur â lefel y bygythiad;

**Cam Allweddol 5.3**
cynhyrchu ISAPs i helpu i gyfleu blaenoriaethau strategol ar lefel Prydain, lefel genedlaethol a lefel ranbarthol. Bydd y rhain:

- yn cael eu datblygu mewn partneriaeth â rhanddeiliaid;
- yn nodi'r dull strategol yn glir (ar lefel ranbarthol os yw'n berthnasol) fel bod yr holl randdeiliaid ar wahanol lefelau yn gallu cefnogi'r cynllun;

**Cam Allweddol 5.4**
gwella ymwybyddiaeth o arferion bioddiogelwch da ac o gydymffurfio â nhw, drwy:

- asesu dulliau a llwybrau lledaenu o fewn Prydain, a'u rhoi yn nhrefn blaenoriaeth wedyn yn ôl risg;
- lleihau'r risg lledaenu a achosir gan lwybrau â blaenoriaeth (e.e. drwy ddatblygu cynlluniau rheoli llwybrau), gan dargedu'r ymdrechion at feysydd lledaenu allweddol (h.y. dwysfannau) a'r ardaloedd y mae'n fwyaf tebygol yr effeithir arnynt (e.e. cynefinoedd sensitif);
- addysgu staff a chontractwyr perthnasol sy'n gweithio i'r llywodraeth, i gyrff anllywodraethol ac i ddiwydiant, yn ogystal â'r cyhoedd yn ehangach;
- datblygu a rhannu arferion bioddiogelwch da;

**Cam Allweddol 5.5**
ceisio cofnodi'r camau gweithredu sydd ar waith ym Mhrydain mewn perthynas â rhywogaethau penodol ar gronfa ddata ganolog. Dylai hyn fod yn ofyniad gydag unrhyw waith rheoli a noddir gan lywodraeth;

**Cam Allweddol 5.6**
gwella'r ffyrdd o gefnogi gweithredu lleol strategol;

**Cam Allweddol 5.7**
annog adfer cynefinoedd, lle mae’n briodol, ar ôl rheoli rhywogaeth estron oresgynnol.

**Cyd-drefnu gweithredu lleol**

Mae’n hanfodol cyd-drefnu gweithredu ar raddfa fawr wrth fynd i’r afael â rhywogaethau estron sydd wedi ymsefydlu, a bu sawl cynllun sydd wedi helpu’n fawr gyda hyn. Mae prosiect bioddiogelwch RAFTS (*Rivers and Fisheries Trusts of Scotland*) wedi sicrhau gweithredu sy’n cael ei gyd-drefnu o ran rhywogaethau estron goresgynnol ar draws llawer o’r Alban. Datblygwyd cynlluniau bioddiogelwch ar raddfa dalgylch ac mae hyn yn unol â’r patrwm gweithredu yn Strategaeth Prydain.

Yn Lloegr, mae Defra wedi darparu £1.5 miliwn dros 4 blynedd i gefnogi Grwpiau Gweithredu Lleol sy’n mynd i’r afael â rhywogaethau goresgynnol. Nid yn unig y mae’r grwpiau gweithredu hyn wedi rheoli rhywogaethau cyffredin fel jac y neidiwr ond maent hefyd wedi mynd i’r afael â 15 rhywogaeth o blanhigion ac anifeiliaid i gyd, wedi sefydlu mecanweithiau atal a chanfod yn gynnar, wedi cyflwyno hyfforddiant, ac wedi cefnogi gwaith i godi ymwybyddiaeth drwy hyrwyddo ymgyrchoedd ‘Mynd at Wraidd y Mater’ ac ‘Edrych, Golchi, Sychu’. Mae rhai hyd yn oed wedi gwneud ymchwil ac mae eraill wedi ymuno â grwpiau eraill dramor i sicrhau arian gan yr UE.

Mae cyfraniad gwirfoddolwyr wedi bod yn hynod bwysig i lwyddiant Grwpiau Gweithredu Lleol ac fe gyfrannon nhw, ynghyd â grwpiau eraill sy’n gweithredu’n lleol, 130,000 o oriau (amcangyfrif) o ymdrech wirfoddoli yn 2012.



*Grwpiau Gweithredu Lleol yn rheoli rhywogaethau goresgynnol ym Mhrydain.*

## 6 Meithrin Ymwybyddiaeth a Dealltwriaeth

Mae gwell ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o broblem rhywogaethau estron goresgynnol yn bwysig er mwyn denu cefnogaeth i bolisïau a rhaglenni perthnasol, ac ennyn cysylltiad â'r cyhoedd. Mae hefyd yn holl bwysig i sicrhau newid o ran ymddygiad lle mae gweithgareddau'n cario risg o gyflwyno neu ledaenu rhywogaethau estron goresgynnol.

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol yn y maes hwn, yn cynnwys sefydlu gwefan yr Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron (NNSS), sy'n un pwynt gwybodaeth i randdeiliaid ym Mhrydain ac yn gyfrwng gwerthfawr. Rydym wedi gwneud ymchwil i agweddau'r cyhoedd a defnyddiwyd y gwaith hwnnw fel sail i waith y Gweithgor Cyfryngau a Chyfathrebu, a ddatblygodd Gynllun Cyfathrebu Strategol a'i roi ar waith. Rydym hefyd wedi lansio a chynnal dwy ymgyrch codi ymwybyddiaeth ('Mynd at Wraidd y Mater' ac 'Edrych, Golchi, Sychu'), wedi cynhyrchu dalennau adnabod ar 69 rhywogaeth, wedi datblygu deunyddiau hyfforddi ac wedi rhoi nifer o sgyrsiau i randdeiliaid ac i'r cyhoedd. Mae tystiolaeth yn barod i awgrymu llwyddiant sylweddol. Er enghraifft, mae ymchwil wedi dangos bod defnyddwyr dŵr sy'n ymwybodol o ymgyrch Edrych, Golchi, Sychu yn fwy tebygol o arfer mesurau bioddiogelwch da na'r rhai nad ydynt yn gwybod am yr ymgyrch.

Canfu'r adolygiad, fodd bynnag, nad yw'n ffordd ni o weithredu ar hyn o bryd mor feiddgar â'r hyn a geir mewn gwledydd fel Awstralia neu Seland Newydd. Pe bai modd cynyddu'r adnoddau a neilltuir i godi ymwybyddiaeth a newid ymddygiad, caent fwy o effaith o ran gwireddu ein hamcanion. Byddwn, felly, yn ceisio cynhyrchu cynlluniau codi ymwybyddiaeth a chyfathrebu mwy uchelgeisiol, gyda chefnogaeth Cyrff Anllywodraethol. Byddwn yn parhau i gefnogi a thyfu'r ymgyrchoedd presennol gyda'n cynulleidfaoedd targed allweddol a cheisio sicrhau bod adnoddau digonol ar eu cyfer. Byddwn yn cynnal gwefan NNSS fel y canolbwynt i wybodaeth am rywogaethau estron ym Mhrydain ac yn cryfhau'r Gweithgor Cyfryngau a Chyfathrebu. Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr ym maes Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion i wneud yn fawr o'r cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth wrth annog gwell bioddiogelwch.

### *Amcan*

Codi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â rhywogaethau estron goresgynnol ymysg y cyhoedd a chynulleidfaoedd targed allweddol a, lle mae hynny'n briodol, achosi newid mewn ymddygiad.

### *Camau Allweddol:*

Byddwn yn:

**Cam Allweddol 6.1**
adeiladu ar lwyddiannau'r ymgyrchoedd presennol, gan eu gwerthuso a'u hadolygu lle mae rhaid;

**Cam Allweddol 6.2**
defnyddio dulliau cyfathrebu sydd wedi'u targedu'n well (yn cynnwys ffyrdd newydd o gyfathrebu) gan eu hanelu at sectorau a llwybrau allweddol;

**Cam Allweddol 6.3**
hyrwyddo gwella mynediad at wybodaeth am rywogaethau estron goresgynnol – yn enwedig i'r sectorau a'r grwpiau diddordeb sy'n gysylltiedig â llwybrau allweddol;

**Cam Allweddol 6.4**
parhau i asesu agweddau'r cyhoedd a gwerthuso effeithiolrwydd ymgyrchoedd cyfathrebu fel sail i'r strategaeth gyfathrebu;

**Cam Allweddol 6.5**
rhoi i'r Gweithgor Cyfryngau a Chyfathrebu gyfrifoldeb i adolygu'i gynllun presennol a chael mewnbwn gan Gyrff Anllywodraethol/masnach ac arbenigwyr o ran cymorth cyfathrebu pellach;

**Cam Allweddol 6.6**
gweithio gyda Chyrff Anllywodraethol/cyrff masnach i wneud gwell defnydd o'r mecanweithiau presennol i ledaenu negeseuon cyson;

**Cam Allweddol 6.7**
gweithio gyda chydweithwyr ym maes Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion i ddatblygu negeseuon cyson ynglŷn â bioddiogelwch a gwneud yn fawr o'r cyfleoedd i gydweithio;

**Cam Allweddol 6.8**
cynnal, diweddaru a datblygu gwefan NNSS;

**Cam Allweddol 6.9**
parhau i ddatblygu cyfryngau hyfforddi yn cynnwys adnoddau ar-lein.

## 7 Darpariaethau Trawsbynciol

7.1 Llywodraethu a chyd-drefnu

Un o brif argymhellion Adolygiad Rhywogaethau Estron 2003 oedd bod angen sefydlu un corff i gyd-drefnu'r gwaith. Arweiniodd hyn at greu Bwrdd Rhaglen Rhywogaethau Estron Prydain a'i Ysgrifenyddiaeth yn 2005/06, ac yn ddiweddarach at y Panel Dadansoddi Peryglon (NNRAP), y Gweithgor Cyfryngau a Chyfathrebu a Bwrdd Adborth Rhanddeiliaid (SSB). Mae'r Fforwm Rhanddeiliaid, sy'n dod â chynrychiolwyr ynghyd o amryw o sectorau i drafod materion strategol, wedi bod ar waith er 2004. Sefydlwyd gweithgorau eraill gan y Bwrdd Rhaglen fel yr oedd angen. Mae gweithgorau yng Nghymru a'r Alban (ac yn Lloegr gynt) yn delio â materion yn ymwneud â rhywogaethau estron yn y gwledydd hynny ac, er bod cysylltiad agos rhyngddynt â'r gwaith ar lefel Prydain, nid ydynt yn cael eu llywodraethu gan Fwrdd Rhaglen Prydain.

Er bod yr adolygiad o Strategaeth 2008 yn dweud y cytunir yn gyffredinol fod y model cyd-drefnu wedi gweithio'n dda, cafodd pryderon eu codi gan randdeiliaid. Roeddent yn cynnwys natur strategol y bwrdd, diffyg tryloywder a llais i randdeiliaid mewn rhai penderfyniadau, a'r diffyg Gweithgor i Loegr ar hyn o bryd. Hefyd, mae llawer o randdeiliaid wedi dweud y byddai cyllid annigonol yn rhwystr rhag gweithredu, yn enwedig o ystyried y bygythiad cynyddol a'r gofynion newydd o dan Reoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol yr UE.

Rydym wedi penderfynu, felly, parhau â'r system gyd-drefnu bresennol, ond y bydd yn cael ei harwain gan Fwrdd Rhaglen sydd â ffocws mwy strategol, yn cael ei gynorthwyo gan yr Ysgrifenyddiaeth. Bydd pwysigrwydd rhoi llais i randdeiliaid yn dal i gael ei adlewyrchu drwy ddefnyddio gweithgorau, a thrwy'r Fforwm Rhanddeiliaid blynyddol. Byddwn yn helpu i ddatblygu Gweithgor i Loegr i gyd-fynd â gweithgorau'r Alban a Chymru. Bydd y Bwrdd Rhaglen yn arolygu adolygiad gwariant a'r hyn sy'n ofynnol i weithredu'r Strategaeth ddiweddaredig hon a Rheoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol yr UE.

### *Amcan*

Cyd-drefnu'r gweithredu ar faterion yn ymwneud â rhywogaethau estron ar draws Prydain er mwyn bod mor effeithiol â phosibl a chydweithredu cymaint â phosibl.

***Camau Allweddol*:**

Byddwn yn:

**Cam Allweddol 7.1**
sicrhau bod y Bwrdd Rhaglen yn canolbwyntio ar faterion strategol. Bydd y Bwrdd yn:

- edrych o'r newydd ar ei aelodaeth (yn cynnwys statws yr aelodau) a'i gylch gorchwyl;
- asesu'r adnoddau sy'n ofynnol i gefnogi Strategaeth Prydain a rhoi Rheoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol yr UE ar waith;
- arolygu'r gweithgorau sy'n adrodd iddo;
- integreiddio gwaith yn ymwneud â rhywogaethau estron goresgynnol yn well â chynlluniau bioddiogelwch eraill;
- cynnal trosolwg o waith asiantaethau sy'n berthnasol i reoli rhywogaethau estron;

**Cam Allweddol 7.2**
ailsefydlu Gweithgor Lloegr i gyd-fynd â Gweithgorau Cymru a'r Alban;


**Cam Allweddol 7.3**
cynnal y Fforwm Rhanddeiliaid blynyddol fel cyfrwng hanfodol i roi gwybod i randdeiliaid am y cynnydd sydd wedi'i wneud, ac i ganfod eu barn.

7.2 Blaenoriaethu a dadansoddi risg

Mae bron i 2,000 o rywogaethau estron wedi ymsefydlu ym Mhrydain. Gwyddom fod rhyw 300 ohonynt yn cael effaith andwyol, a bydd rhagor yn cyrraedd ac yn cael effaith yn y dyfodol. Heb adnoddau di-ben-draw, mae'n hanfodol gosod blaenoriaethau er mwyn sicrhau'r budd mwyaf.

Ym Mhrydain, caiff asesiadau risg eu defnyddio i helpu i flaenoriaethu ymdrechion, ac mae'n debyg mae ein dulliau dadansoddi risg ni yw'r rhai mwyaf datblygedig yn yr UE.

**Proses Prydain i Asesu Risg Rhywogaethau Estron**




Fodd bynnag, mae'r broses asesu'n dal i esblygu. Mae nifer o feysydd y gellir eu datblygu o hyd a dylid gwneud hynny:

- er bod y broses wedi cynhyrchu dros 60 o asesiadau ers ei sefydlu (gyda 40+ o asesiadau ychwanegol ar y gweill), mae'n gallu cymryd amser hir i gwblhau asesiadau unigol;

- cyfyngedig yw cyfraniad asesiadau risg ar eu pen eu hunain o ran cytuno ar flaenoriaethau, gan nad ydynt yn ystyried ffactorau fel pa mor ddichonadwy neu gost effeithiol yw hi i ymateb i rywogaeth estron oresgynnol. Mae angen proses rheoli risg ar gyfer hynny;

- bydd gwneud mwy i gyfleu'r cysylltiad rhwng dadansoddi risg a gwneud penderfyniadau ym Mhrydain yn gwneud y broses yn fwy tryloyw ac effeithiol.

38. Byddwn yn gwella'r broses dadansoddi risg drwy ganolbwyntio ar asesiadau risg cyflym, drwy gytuno'n derfynol ar broses i reoli risg, drwy wneud y broses yn fwy tryloyw, a thrwy gyfleu canlyniadau dadansoddiadau risg yn fwy effeithiol.

***Amcan***

Cynnal fframwaith dadansoddi risg a fydd yn ategu deddfwriaeth ac yn help i wneud penderfyniadau a blaenoriaethu, a'i ddatblygu ymhellach.

***Camau Allweddol***:

Byddwn yn:

**Cam Allweddol 7.4**
datblygu'r mecanwaith dadansoddi risg ymhellach er mwyn helpu i flaenoriaethu adnoddau'n strategol, yn arbennig drwy ddatblygu cyfrwng rheoli risg (sy'n cynnwys dadansoddiad cost a budd);

**Cam Allweddol 7.5**
gwneud asesiadau risg yn fwy trylwyr wrth asesu bygythiadau ecolegol tymor hir, yn arbennig i rywogaethau, safleoedd a chynefinoedd bregus a gwarchodedig (e.e. ynysoedd);

**Cam Allweddol 7.6**
gwneud y cysylltiad rhwng asesiadau risg, rheoli risg a phenderfyniadau polisi yn fwy tryloyw a'u cyfleu'n gliriach;

**Cam Allweddol 7.7**
parhau i adolygu a diwygio'r mecanwaith asesu risg yng ngoleuni datblygiadau rhyngwladol (yn arbennig mewn perthynas â Rheoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol yr UE, a datblygiadau'n ymwneud ag Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion);

**Cam Allweddol 7.8**
gwneud y broses dadansoddi risg yn gyflymach (e.e. drwy ganolbwyntio ar gynhyrchu asesiadau risg cyflym).

### 7.3 Deddfwriaeth

Mae fframwaith deddfwriaethol cydlynol yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â'r bygythiadau yn deillio o rywogaethau estron goresgynnol; fodd bynnag, mae'r ddeddfwriaeth berthnasol ar wasgar yn eang ar hyn o bryd. Hefyd, yn wahanol i iechyd anifeiliaid a phlanhigion, nid oes gan yr UE fframwaith deddfwriaethol yn sail i ddeddfwriaeth ddomestig. Fodd bynnag, er 2008 bu nifer o ddatblygiadau arwyddocaol sy'n effeithio ar y fframwaith deddfwriaethol ym Mhrydain:

- Cryfhaodd Deddf Bywyd Gwyllt a'r Amgylchedd Naturiol (yr Alban) 2011 y troseddau'n ymwneud â rhyddhau rhywogaethau ac ychwanegodd fesurau newydd ar gadw, rhoi hysbysiadau am, a rheoli rhywogaethau estron, yn cynnwys cyflwyno gorchmynion rheoli rywogaethau;
- Yn 2011, dechreuodd Comisiwn y Gyfraith ar ei Brosiect Cyfraith Bywyd Gwyllt sy'n edrych ar foderneiddio a chydgrynhoi'r fframwaith cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr. Bydd yn gwneud argymhellion maes o law ynglŷn â rhywogaethau estron;
- Yn 2013, gwaharddwyd gwerthu pum planhigyn dyfrol hynod o oresgynnol yn Lloegr, gan ddefnyddio pwerau a gyflwynwyd yn 2006 am y tro cyntaf;
- Cyflwynodd Deddf Seilwaith 2015 orchmynion rheoli rhywogaethau yng Nghymru a Lloegr;
- Mabwysiadwyd mesurau sy'n cael eu cyd-drefnu ar draws Ewrop am y tro cyntaf drwy Reoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol yr UE, a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2015.

Chwaraeodd y Deyrnas Unedig rôl flaenllaw gydol y gwaith o baratoi a negodi Rheoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol yr UE. Mae'n rhoi gofynion cyfreithiol ar Aelod Wladwriaethau'r UE o ran atal (e.e. drwy wahardd gwerthu, etc. rhywogaethau rhestredig, a datblygu cynlluniau gweithredu llwybrau), rhybuddio'n gynnar ac ymateb yn gyflym, a rheoli rhywogaethau sydd wedi ymsefydlu. Yn ychwanegol at restr o rywogaethau gwaharddedig yr UE, gall Aelod Wladwriaethau greu eu rhestri cenedlaethol eu hunain o rywogaethau, ynghyd â rhestri rhanbarthol i helpu i drefnu ymateb ar y cyd ag Aelod Wladwriaethau eraill. Er bod y Rheoliad yn cael ei gweithredu'n uniongyrchol yn y Deyrnas Unedig (h.y. nid oes angen ei drosi'n gyfraith genedlaethol fel y byddai gyda Chyfarwyddeb), bydd angen rhywfaint o ddeddfwriaeth genedlaethol ychwanegol i sicrhau bod modd rhoi'r mesurau ar waith yn effeithiol.

Mae'n bwysig nid yn unig datblygu deddfwriaeth newydd ond gwneud y defnydd gorau hefyd o'r pwerau presennol. Gellir gwella hyn drwy sicrhau bod rheoleiddwyr yn gweithredu mewn modd cyson a thrwy wella'r cyd-drefnu a'r cydweithredu ag asiantaethau gorfodi.

Bydd gwaith Comisiwn y Gyfraith yn gyfle i ystyried sut y gellid gwella deddfwriaeth yng Nghymru a Lloegr. Gallai gweithredu Rheoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol yr UE

fod yn help i gysoni deddfwriaeth Prydain, lle mae'n briodol, â'r ddeddfwriaeth ar iechyd anifeiliaid a phlanhigion. Byddai hyn yn fodd i ddatblygu prosesau cyson, wedi'u rhesymoli, mewn meysydd fel arolygu ffiniau.

***Amcan***

Helpu i ddatblygu fframwaith deddfwriaethol cydlynol, cynhwysfawr a hyblyg ym Mhrydain i ymdrin â rhywogaethau estron goresgynnol.

***Camau allweddol:***

Byddwn yn:

**Cam Allweddol 7.9**
cefnogi deddfwyr wrth iddynt ystyried y mesurau a gynigir gan Brosiect Cyfraith Bywyd Gwyllt Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr;

**Cam Allweddol 7.10**
cefnogi deddfwyr i ddatblygu ffyrdd o roi Rheoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol yr UE ar waith yn effeithiol;

**Cam Allweddol 7.11**
gwneud gwell defnydd o'r pwerau presennol drwy well cydweithredu a chyd-drefnu rhwng rheoleiddwyr, yn enwedig drwy ddatblygu ffordd gyson o ymdrin â gorfodi;

**Cam Allweddol 7.12**
sicrhau bod unrhyw newidiadau yn y fframwaith deddfwriaethol yn cael eu cyfleu'n effeithiol i randdeiliaid perthnasol.

## 8 Ymchwil

Mae ymchwil yn allweddol i ddylanwadu ar y gweithredu mewn cysylltiad â rhywogaethau estron goresgynnol. Mae'n holl bwysig bod polisïau'n cael eu seilio ar dystiolaeth gref, a bydd canlyniadau gwaith ymchwil yn aml yn elfen allweddol yn helpu i lunio strategaethau rheoli risg, cadw gwyliadwriaeth, canfod, monitro, rheoli a dileu, ac yn dylanwadu hefyd ar weithgareddau i godi ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd.

Gwnaed cynnydd sylweddol ar rai elfennau ymchwil strategol, yn arbennig waith ar effeithiau economaidd ac agweddau cyhoeddus, ond mae angen rhagor i fynd i'r afael â bylchau yn ein gwybodaeth. Mae angen mwy o gyd-drefnu o ran ariannu ymchwil, ac mae ar y gymuned ymchwil angen disgrifiad cliriach o'r blaenoriaethau ymchwil gan y rhai sy'n ariannu'r gwaith.

Nododd adolygiad polisi 2003 o rywogaethau estron a Grŵp Cynghori ar Ymchwil Bioamrywiaeth y DU (UK BRAG 2003) rai meysydd oedd â blaenoriaeth o ran gwneud ymchwil, ond er bod cynnydd wedi'i wneud eisoes mewn llawer o'r meysydd hynny credwn ei bod yn bryd eu hailystyried a'u diweddaru. Dylem hefyd ystyried yr anghenion ymchwil sy'n deillio o Reoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol yr UE, yn ogystal â chydweithredu â'n cymdogion ar brosiectau ymchwil, yn arbennig brosiectau yn Iwerddon ac mewn Aelod Wladwriaethau eraill o'r UE.

Rydym yn awgrymu sefydlu gweithgor i helpu i nodi bylchau a gosod blaenoriaethau ymchwil ac i gydweithio'n fwy effeithiol â'n cymdogion.

***Amcan***

Annog gweithgareddau ymchwil trylwyr, strategol a chydlynol i gefnogi polisïau a chamau gweithredu Prydain ar rywogaethau estron.

***Camau allweddol:***

Byddwn yn:

**Cam Allweddol 8.1**
sefydlu gweithgor a fydd â chyfrifoldeb i wella cyd-drefnu, datblygu cynllun strategol, cyfathrebu â'r gymuned ymchwil, a dylanwadu ar y rhai sy'n ariannu ymchwil;

**Cam Allweddol 8.2**
cyhoeddi gofynion ymchwil strategol wedi'u gosod yn erbyn blaenoriaethau Strategaeth Prydain ac anghenion polisi eraill (e.e. Rheoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol yr UE, WFD, MSFD);

**Cam Allweddol 8.3**
coladu a chynnal cronfa ddata, sydd ar gael yn gyhoeddus, o ymchwil sydd wedi'i gomisiynu ar rywogaethau estron goresgynnol Prydain (a mannau eraill lle mae'n berthnasol)

**Cam Allweddol 8.4**
ceisio cyfleoedd i gydweithio â gwledydd eraill er mwyn sicrhau'r budd mwyaf a dyblygu llai ar ymdrechion;

**Cam Allweddol 8.5**
annog ymarferwyr i gofnodi arferion da, rhoi gwybod amdanynt a'u rhannu.

## 9 Cyfnewid a Chyfuno Gwybodaeth

Mae angen hyrwyddo'r arferion gorau i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, fel bod modd cymhwyso gwersi a ddysgir mewn un maes mewn mannau eraill. Mae'n bwysig, hefyd, fod canlyniadau ymchwil yn cael eu lledaenu'n eang.

Mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'r arferion diweddaraf gorau dramor fel bod modd defnyddio'r dulliau mwyaf effeithiol i wrthsefyll rhywogaethau estron goresgynnol ym Mhrydain. Hefyd, gan ei bod yn broblem fyd-eang, mae angen cynnal cysylltiadau â rhwydweithiau a chynlluniau byd-eang eraill megis Grŵp Arbenigol Rhywogaethau Goresgynnol yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN ISSG). Gallai'r arferion gorau a ddatblygir ym Mhrydain gael eu defnyddio hefyd mewn gwledydd y tu hwnt i Brydain, er enghraifft yn Nhiriogaethau Tramor y Deyrnas Unedig a Thiriogaethau Dibynnol ar y Goron neu mewn Aelod Wladwriaethau eraill o'r UE nad yw eu trefniadau i reoli rhywogaethau estron goresgynnol wedi datblygu i'r fath raddau efallai. Rydym eisoes yn cydweithio â'n cymdogion, Iwerddon yn arbennig, yn cynnwys gwaith drwy'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig ac rydym yn bwriadu parhau â hyn.

***Amcan***

Sicrhau bod gan Brydain y wybodaeth ddiweddaraf bob amser am ddatblygiadau'n ymwneud â rhywogaethau estron gartref ac yn rhyngwladol, a'i bod yn lledaenu gwybodaeth yn effeithiol.

***Camau allweddol:***

Byddwn yn:

**Cam Allweddol 9.1**
parhau i gyfrannu at bolisïau ehangach Prydain a'i chynlluniau bioddiogelwch;

**Cam Allweddol 9.2**
parhau i gydweithio'n agos â'n cymheiriaid yn Iwerddon, a hynny'n cynnwys gweithio drwy'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig;

**Cam Allweddol 9.3**
cefnogi fforwm blynyddol o Aelod Wladwriaethau gydag amcanion a rennir (sy'n unol â Rheoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol yr UE a'r angen am gyd-drefnu rhanbarthol);

**Cam Allweddol 9.4**
datblygu bwrdd negeseuon i wella'r cyfnewid gwybodaeth;

**Cam Allweddol 9.5**

cryfhau'r gefnogaeth i'r Tiriogaethau Tramor a Thiriogaethau Dibynnol ar y Goron, er enghraifft drwy:

- barhau i gefnogi'r gwasanaeth adnabod infertebratau;
- rhannu arbenigedd technegol;
- darparu hyfforddiant, yn cynnwys hyfforddiant bioddiogelwch;

**Cam Allweddol 9.6**
parhau i ehangu a gwella gwefan NNSS fel adnodd i bob rhanddeiliad.

## 10 Gweithredu ac Adolygu

Mae’r Strategaeth hon yn ymdrin ag amrywiaeth eang o faterion ac mae’r camau gweithredu ynddi yn cwmpasu sawl ystod – amser, hyd a lled daearyddol, a’r amrywiaeth pobl sydd â rôl i’w chwarae. Bydd yn well symud sawl agwedd o’r Strategaeth hon ymlaen ar lefel Prydain, ond bydd yn well delio ag eraill fesul gwlad unigol, ar lefel dalgylch neu drwy ystyried ynysoedd ac ecosystemau ynysig eraill yn unigol. Bydd Bwrdd Rhaglen Prydain yn darparu trosolwg strategol ac yn hyrwyddo cynlluniau Prydeinig.

Byddwn yn datblygu cynllun i roi arweiniad gweithredu a byddwn yn darparu adroddiadau cynnydd rheolaidd – bydd yr holl wybodaeth berthnasol ar gael hefyd at wefan GBNNSS.

Caiff y Strategaeth ei hadolygu o bryd i’w gilydd i sicrhau ei bod yn gweithio’n effeithiol a bod y mesurau’n ddigon hyblyg i ymateb i amgylchiadau cyfnewidiol. Bydd y Bwrdd Rhaglen yn parhau i werthuso’r Strategaeth bob pum mlynedd.

***Camau allweddol:***

Byddwn yn:

**Cam Allweddol 10.1**
datblygu a chynnal cynllun gweithredu er mwyn i gamau allweddol y Strategaeth hon gael eu cyflawni;

**Cam Allweddol 10.2**
gwerthuso’r Strategaeth ac yn ei datblygu ymhellach bob pum mlynedd.

**Atodiad 1**

**ARGYMHELLION ALLWEDDOL O'R "REVIEW OF NON-NATIVE SPECIES POLICY: REPORT OF THE WORKING GROUP", DEFRA, 2003.**

**Argymhelliad Allweddol 1:** Dylai'r Llywodraeth ddynodi neu greu un sefydliad arweiniol cydgysylltiedig i gydgysylltu a sicrhau cysondeb o ran cyflwyno polisïau rhywogaethau estron ledled y Llywodraeth.

**Argymhelliad Allweddol 2:** Datblygu gweithdrefnau asesu risg cynhwysfawr, derbyniol i asesu'r peryglon a achosir gan rywogaethau estron, a nodi a blaenoriaethu camau i'w hatal.

**Argymhelliad Allweddol 3:** Datblygu codau ymddygiad i helpu i atal cyflwyno rhywogaethau ar gyfer yr holl sectorau perthnasol, trwy gydweithio gan gynnwys yr holl randdeiliaid perthnasol.

**Argymhelliad Allweddol 4:** Datblygu strategaeth addysg ac ymwybyddiaeth wedi'i thargedu, sy'n cynnwys yr holl sectorau perthnasol.

**Argymhelliad Allweddol 5:** Diwygio a diweddaru'r ddeddfwriaeth gyfredol i wella'r modd o ymdrin â materion rhywogaethau estron goresgynnol.

**Argymhelliad Allweddol 6:** Sefydlu trefniadau monitro a goruchwylio digonol ar gyfer rhywogaethau estron ym Mhrydain.


**Argymhelliad Allweddol 7:** Dylid sefydlu polisïau ar gyfer rheoli rhywogaethau estron goresgynnol sydd eisoes yn bresennol neu sydd newydd gyrraedd yn y gwyllt, a datblygu gallu gweithredol i roi'r polisïau hyn ar waith.

**Argymhelliad Allweddol 8:** Dylid ymgynghori ac ymgysylltu'n llawn â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisïau a chamau gweithredu ar rywogaethau estron goresgynnol, trwy gyfrwng mecanwaith fel fforwm ymgynghori.

**Atodiad 2**

**MECANWAITH RHYWOGAETHAU ESTRON PRYDAIN**

*Diagram o’r prif gyrff sy’n rhan o Fecanwaith Rhywogaethau Estron Prydain*




**Llywodraethu**

Cafodd Mecanwaith Rhywogaethau Estron Prydain ei ddatblygu i wella’r cyd-drefnu ar bolisi a gweithredu ar rywogaethau estron ar draws Prydain. Nid yw’n cyflwyno pwerau na chyfrifoldebau newydd. Yn hytrach, mae’n gweithio gyda rolau a chyfrifoldebau presennol cyrff Prydeinig. Swyddogaeth y mecanwaith yw cyd-drefnu gweithredu mewn perthynas â rhywogaethau estron nad yw’n cael ei gwmpasu gan fecanweithiau eraill (e.e. trefniadau iechyd anifeiliaid a phlanhigion).

*Bwrdd Rhaglen Rhywogaethau Estron Prydain*

*Sefydlwyd: 2005* | *Cadeirydd: Defra* | *Cyfansoddiad: Llywodraeth*| *Cyfarfodydd: c.2 y flwyddyn*

Bwrdd Rhaglen Rhywogaethau Estron Prydain yw prif organ y mecanwaith. Ei brif swyddogaeth yw darparu fforwm er mwyn cyd-drefnu polisi yn ymwneud â rhywogaethau

estron ar draws y tair gwlad a phennu blaenoriaethau i weithredu strategol allweddol ar lefel Brydeinig. Mae'n cynnwys uwch swyddogion polisi o'r tair gwlad, yn ogystal â chynrychiolwyr o asiantaethau llywodraeth. Nid oes sail statudol i'r Bwrdd, felly mae'r penderfyniadau polisïau a'r cyfrifoldeb o'u gweithredu yn aros gyda'r cyrff unigol sy'n rhan o'r Bwrdd.

*Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain*

*Sefydlwyd: 2006 | Maint: 2.6 staff | Cyllidwr: Defra*

Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron (NNSS) Prydain yw ysgrifenyddiaeth Bwrdd Rhaglen Prydain. Prif ddyletswyddau NNSS yw cefnogi'r camau gweithredu ac ymgymryd â rhaglen waith sy'n ateb amcanion y Bwrdd Rhaglen. Yr Ysgrifenyddiaeth yw'r canolbwynt cyfathrebu a chyd-drefnu rhwng y Bwrdd Rhaglen, y Gweithgorau a rhanddeiliaid.

*Ymgysylltu â rhanddeiliaid*

Mae rhanddeiliaid anllywodraethol yn rhan holl bwysig o Fecanwaith Prydain, yn cyflawni llawer o agweddau o'r gwaith yn ogystal â darparu cymorth, cyngor a thystiolaeth dyngedfennol. O fewn y mecanwaith, mae'r dulliau ymgysylltu allweddol yn cynnwys:

- mewnbwn rheolaidd drwy ddefnyddio gweithgorau (gorchwyl a gorffen yn ogystal â rhai sefydlog)
- cyswllt rheolaidd â'r NNSS, sy'n helpu i gysylltu rhanddeiliaid a chyrff llywodraeth
- y fforwm rhanddeiliaid blynyddol, sy'n gyfrwng allweddol er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd i randdeiliaid a'u cynnwys yn y cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

*Panel Dadansoddi Risg Rhywogaethau Estron*

*Sefydlwyd: 2006 | Cadeirydd: Imperial College Llundain| Cyfansoddiad: Arbenigwyr Llywodraeth ac arbenigwyr eraill | Cyllidwr: Defra*

Grŵp craidd o arbenigwyr dadansoddi risg yw'r Panel Dadansoddi Risg Rhywogaethau Estron (NNRAP) sy'n goruchwylio mecanwaith dadansoddi risg Prydain. Ei rôl yw sicrhau bod yr asesiadau risg a ddarperir i'r Bwrdd Rhaglen yn drylwyr ac addas i'w diben. Mae'r NNRAP yn cwrdd sawl gwaith y flwyddyn i adolygu a chymeradwyo asesiadau risg, sy'n cael eu cwblhau gan arbenigwyr annibynnol cyn i adolygiad cymheiriaid gael ei gynnal, eto gan arbenigwyr annibynnol. Mae'r Panel hefyd yn goruchwylio gwelliannau i broses y mecanwaith dadansoddi risg.

*<u>Porthol Gwybodaeth am Rywogaethau Estron</u>*

*Sefydlwyd: 2009 | Statws: Ariannwyd tan 2016 | Arweinydd prosiect: y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg | Partneriaid prosiect: Ymddiriedolaeth Adareg Prydain, y Gymdeithas Fiolegol Forol, Cymdeithas Fotanegol Ynysoedd Prydain*

Mae'r Porthol Gwybodaeth am Rywogaethau Estron (NNSIP) yn allweddol er mwyn gallu canfod yn gynnar, cadw gwyliadwriaeth a monitro ym Mhrydain. Mae rôl yr NNSIP yn cynnwys darparu storfa ganolog i wybodaeth am rywogaethau estron a data dosbarthiad, cynyddu'r llif o ddata dosbarthiad i gronfeydd data canolog, darparu swyddogaeth gwylio'r gorwel a chynnal system rybuddio. Mae llawer o waith yr NNSIP i'w weld drwy wefan NNSS, lle caiff gwybodaeth am yr holl rywogaethau estron a gofnodir ym Mhrydain ei chanfod ynghyd â thaflenni gwybodaeth am 300 o rywogaethau.

**Gweithgorau**

Caiff gweithgorau eu sefydlu gan NNSS ar ran y Bwrdd Rhaglen fel a phan y mae angen i ystyried materion penodol neu i gyflawni canlyniadau penodedig. Hyd yma mae'r gweithgorau canlynol wedi cael eu sefydlu:

*<u>Gweithgor Ymateb Cyflym</u>*

*Sefydlwyd: 2008 | Statws: Gorchwyl a Gorffen o 2008-2010; ailgyfansoddwyd 2015 | Cadeirydd: Scottish Natural Heritage | Cyfansoddiad: Llywodraeth*

Sefydlwyd y Gweithgor Ymateb Cyflym gyda'r prif nod o ddrafftio'r Adroddiad Ymateb Cyflym ar gyfer y Bwrdd Rhaglen, sef protocol ar sefydlu proses glir er mwyn rhoi ymatebion cyflym yn erbyn rhywogaethau estron goresgynnol ar waith ym Mhrydain. Cwblhawyd hyn yn 2010 ac nid yw'r grŵp wedi cwrdd ers hynny. Fodd bynnag, yn 2015 mae'r grŵp yn cael ei ailgyfansoddi i adolygu'r cynnydd a wnaed a darparu argymhellion pellach.

*<u>Gweithgor Cyfryngau a Chyfathrebu</u>*

*Sefydlwyd: 2008 | Statws: Sefydlog| Cadeirydd: Scottish Natural Heritage | Cyfansoddiad: Llywodraeth ac anllywodraethol | Cyfarfodydd: c. 2 y flwyddyn*

Sefydlwyd y Gweithgor Cyfryngau a Chyfathrebu i gynhyrchu'r Cynllun Strategol ar y Cyfryngau a Chyfathrebu ar gyfer y Bwrdd Rhaglen. Ers cyhoeddi'r cynllun mae llawer o'r camau gweithredu wedi cael eu cyflawni, gyda chymorth aelodau'r Gweithgor. Bellach mae'r grŵp yn cynnal trosolwg dros y gwaith cyfathrebu ym Mhrydain, mae'n cwrdd sawl gwaith y flwyddyn i adolygu cynnydd, yn darparu argymhellion pellach ac yn cefnogi gweithredu. Sefydlwyd dau is-grŵp:

- Is-grŵp Bioddiogelwch Dyfrol (*Sefydlwyd: 2010 | Statws: Sefydlog*)
    - Sefydlwyd yr is-grŵp hwn yn benodol i helpu i ymateb i'r ferdysen reibus ar ôl iddi gael ei chanfod ym Mhrydain yn 2010. Yr is-grŵp a ddatblygodd ymgyrch Edrych, Golchi, Sychu ac mae'n dal i'w chefnogi.
- Is-grŵp Hyfforddiant (*Statws: Gorchwyl a Gorffen 2010 - 2012*)
    - Yn dilyn argymhelliad y Cynllun Strategol ar y Cyfryngau a Chyfathrebu sefydlwyd yr is-grŵp hwn i ddarparu argymhellion ynglŷn â hyfforddiant. Cynhyrchodd y grŵp gorchwyl a gorffen hwn ei argymhellion yn 2012, ac mae'r gwaith o'u cyflawni yn cael ei oruchwylio erbyn hyn gan y Grŵp Cyfryngau a Chyfathrebu.

**Gweithgorau gwledydd**

Y tu hwnt i Fecanwaith Prydain, ac yn annibynnol ar Fwrdd Rhaglen Prydain, mae gweithgorau gwlad wedi cael eu sefydlu yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar benderfynu ar flaenoriaethau ar lefel genedlaethol, a'u gweithredu.

# Atodiad 3 – Rhestr o dermau allweddol

**Asesu risgiau** – rhan o ddadansoddi risgiau; mynd ati'n systematig i asesu'r risg o du rhywogaeth estron (nid yw'r broses hon yn ystyried manteision rhywogaethau estron na'r ymatebion posibl i'w rheoli).

**Bioreoli** – defnyddio gelyn neu ysglyfaethwr naturiol i reoli rhywogaeth estron oresgynnol.

**Cadw gwyliadwraeth** – arsylwi'n agos, fel arfer er mwyn canfod newid neu ddigwyddiad penodol fel cyrhaeddiad rhywogaeth estron oresgynnol.

**Cynllun Gweithredu Llwybrau** – cynllun lefel uchel i nodi nod cyffredinol y polisi a'r camau i leihau'r risgiau sy'n deillio o lwybr penodol.

**Cynllun Gweithredu Rhywogaethau Estron** – cynllun lefel uchel i nodi nod cyffredinol y polisi a'r camau rheoli ar gyfer rhywogaeth estron oresgynnol benodol.

**Cynllun wrth gefn** – cynllun lefel uchel i ymateb i fygythiad a allai godi yn y dyfodol gan rywogaeth estron oresgynnol.

**Dadansoddi dwysfannau** – ffordd systematig o glustnodi ardaloedd sydd â'r perygl mwyaf o weld rhywogaethau estron goresgynnol yn cyrraedd, neu o weld effaith y rhywogaethau hynny.

**Dadansoddi risgiau** – y broses gyffredinol i roi'r dystiolaeth i'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau er mwyn helpu i bennu'r blaenoriaethau ar gyfer rheoli rhywogaethau estron goresgynnol (gan gynnwys clustnodi peryglon, asesu risgiau, rheoli risgiau a chyfathrebu am risgiau).

**Gwyddor y bobl** – y cyhoedd yn gyffredinol yn casglu a dadansoddi data, fel arfer fel rhan o brosiect cydweithredol gyda gwyddonwyr proffesiynol.

**Gwylio'r gorwel** – proses systematig i glustnodi bygythiadau a allai godi yn y dyfodol o du rhywogaethau estron goresgynnol nad ydynt eisoes wedi ymsefydlu ym Mhrydain.

**Llwybr** – term cyffredinol a ddefnyddir i ddisgrifio'r ffordd y mae rhywogaeth estron oresgynnol yn cael ei chyflwyno neu'n lledaenu (gan gynnwys, er enghraifft, diben ei chyflwyno, y daith a ddilynodd i gyrraedd yma, a sut y gwnaeth hynny).

**Mecanwaith rhybuddio** – system a ddefnyddir i roi gwybod yn gyflym am rywogaethau estron goresgynnol penodedig.

**Monitro** – cyfres o arsylwadau dros amser (yn aml yn ymwneud â dosbarthiad rhywogaethau), a ddefnyddir gan amlaf i fesur tueddiadau.

**Rheoli risgiau** – rhan o ddadansoddi risgiau; myn ati'n systematig i asesu'r opsiynau ar gyfer rheoli rhywogaethau estron goresgynnol, gan gynnwys dadansoddiadau o'r costau a'r manteision.

**Ymateb cyflym** – cychwyn camau yn erbyn bygythiad o du rhywogaethau estron goresgynnol ar gam pryd y byddai buddugoliaeth strategol bwysig yn dal yn bosibl yn lleol, yn rhanbarthol neu'n genedlaethol.